

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD



PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

ADRODDIAD AR BRAESEPT ARFAETHEDIG Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD AR GYFER 2022/2023

Cefndir

Gwneir yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol y Panel Heddlu a Throsedd (PHTh) fel y'i pennir ym Mharagraff 3(2), Atodlen 5 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

Adolygiad o'r Praesept Arfaethedig

Hysbyswyd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ynghylch praesept arfaethedig y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer 2022/2023 ar 13 Ionawr 2022, yn unol â Pharagraff 2, Atodlen 5 y Ddeddf.

Ystyriodd y Panel yr Heddlu a Throsedd adroddiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn amlinellu'r praesept a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2022/23 ynghyd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ei gyfarfod rhithiol ddydd Llun, 31 Ionawr 2022.

Roedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cynnig codi'r praesept i £93,861,247 (cynnydd o 4.65% ar braesept 2021/2022), sef cynnydd o 3.68% yn Nhreth y Cyngor (cyfwerth â £316.80 y flwyddyn, cynnydd o £11.25 y flwyddyn, neu 22 ceiniog yr wythnos i eiddo Band D).

Cafodd y Panel hefyd gyflwyniad gan Brif Swyddog Cyllid Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Y Praesept arfaethedig
- Newidiadau yn y dyraniadau cyllid cenedlaethol rhwng 2021/2022 a 2022/2023
- Dyraniadau canolog (brigdorri)
- Grant y Llywodraeth ar gyfer 2022/23
- Cymhariaeth o'r gyllideb yn erbyn gwir niferoedd swyddogion
- Y broses gynllunio
- Pwysau Strwythurol

- Cynyddrannau cyflog Swyddogion Heddlu
- Arbedion
- Ail-fuddsoddi a thwf
- Cyllideb arfaethedig 2022/2023
- Sut y byddai'r cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor yn cael ei wario
- Arolygon
- Risgiau

Wrth graffu ar y praecept arfaethedig cydnabu'r PHTh bod y setliad wedi rhagori ar y disgwyliadau oherwydd bod dyraniad Ymgyrch Uplift yn fwy na'r disgwyl a chyllid yn 2022/2023 yn fwy. Fodd bynnag yn sgil y swyddogion ychwanegol daw costau ychwanegol a bydd y costau hyn yn cynyddu dros y blynyddoedd i ddod wrth i gyflogau'r swyddogion godi drwy gynyddrannau a dyfarniadau cyflogau blynyddol. Bwriedir i'r cyllid a gafwyd hefyd dalu'r holl gostau yn cynnwys yr Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol (cynnydd mewn Yswiriant Gwladol), y sefydlu'r prosesau angenrheidiol ar gyfer y cynnydd mewn swyddogion a chostau'r dyfodol, yn ogystal â chwyddiant cyflogau a heb fod yn gyflogau. Nodwyd hefyd y byddai'n rhaid ariannu unrhyw ddiffyg o arbedion neu o gynnydd yn y praecept.

Codwyd nifer o faterion, fel a ganlyn:

- Effaith yr Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Y cynnydd mewn Dyraniadau Canolog neu frigdorri
- Effaith dileu'r Grant Cyfalaf a'r angen i ariannu'r diffyg mewn cyllid cyfalaf o'r grant cyffredinol.
- Y risgiau cysylltiedig â chwyddiant a chyfrifoldebau newydd; fformiwla ariannu newydd; cyllid y dyfodol a'r gallu i wneud arbedion mewn blynyddoedd i ddod
- Lefel y cronfeydd wrth gefn
- Strategaeth Ystadau

Roedd y PHTh yn cydnabod bod y cynnydd o 3.68% (£11.25) yn cyd-fynd â chynnydd tybiedig y Swyddfa Gartref o £10.00; yn ystyried cost chwyddiant a chynnydd mewn costau sefydlog, gweithredu Ymgyrch Uplift a thwf wedi'i gefnogi i dalu am 10 SCCH ychwanegol.

Roedd y Panel hefyd bod yn cydnabod bod y CHTh wedi ystyried yr holl opsiynau o fewn yr adnoddau sydd ar gael a'r gwaith helaeth a wnaed drwy'r Broses Cynllunio Sefydliadol. Felly, o ystyried y ffactorau hyn, roedd y Panel yn teimlo y gallent gefnogi'r cynnydd arfaethedig er mwyn sicrhau cyllideb ddigonol i alluogi darparu gwasanaeth plismona gweithredol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2022/2023.

ARGYMHELLION:

(a) Bod y praecept ar gyfer 2022/2023 yn cael ei gynyddu i £93,861,247

- **Bydd hyn yn gynyddu o 3.68% yn Nhreth y Cyngor, sydd yn gyfystyr â £316.80 y flwyddyn, cynnydd o £11.25 y flwyddyn, neu 22c yr wythnos i eiddo band D.**

- Mae'r cynnydd hwn cyd-fynd â chynnydd tybiedig y Swyddfa Gartref o £10.00 ynghyd â £1.25 i dalu am 10 SCCH ychwanegol
- Mae hyn yn gynnydd o 0.94% yn y Sylfaen Drethu.
- Mae hyn yn gynnydd yn y praesept o 4.65% ers 2021/2022.

(b) Nodi bod £0.755 miliwn o arbedion wedi'u hadnabod ar gyfer 2022/2023.

(c) Nodi y bydd cynnydd pellach o 82 o Swyddogion Heddlu, 78 ohonynt o ganlyniad i ddyraniad Heddlu Gogledd Cymru o raglen y Llywodraeth i gynyddu niferoedd swyddogion heddlu (Ymgyrch Uplift). Yn ogystal, bydd 4 Swyddog ROCU (Uned Troseddau Trefnedig Ranbarthol) o Ogledd Cymru yn cael eu hariannu drwy Ymgyrch Uplift yn 2022/23.

(d) Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y tybiaethau canlynol:

- Y bydd Treth y Cyngor yn cynyddu oddeutu 3.68% yn 2022/23, 3.79% yn 2023/24, 3.65% yn 2024/25, 3.52% yn 2025/26 a 3.40% yn 2026/27.
- Amcangyfrifir y bydd grantiau plismona yn cynyddu 1.13% yn 2023/24; 1.68% yn 2024/2025 ac 1% yn y ddwy flynedd wedyn.
- Mai 3% fydd y dyfarniadau cyflogau blynyddol, i fod yn weithredol o fis Medi 2022 a 2.5% bob mis Medi wedi hynny.
- Nodi bod y cynnydd yn y grant wedi'i ddyfarnu i gefnogi Ymgyrch Uplift (costau sefydlu a chostau cylchol) ac wedi'i glustnodi i'r diben hwnnw, ac mae'r ymrwymadau hyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb.